

Canmlwyddiant Diwedd y Rhyfel Byd Cyntaf

Adnoddau gan Elaine Halls i nodi llofnodi'r Cadoediad yn 1918.

Gellir cynnwys y litani syml hon a'r gweithgareddau perthynol mewn gwasanaeth i ddarparu gweithred fer o goffâd, neu ei ddefnyddio ar wahân mewn amrywiol gyd-destunau – yn cynnwys grwpiau tai, grwpiau gweddi, eglwysi gaffi, grwpiau plant a phobl ifanc neu wasanaeth ysgol - i gofio 100 mlynedd ers llofnodi'r Cadoediad.

Litani Coffâd

Daeth yr ysbrydoliaeth am y litani hon wrth wehyddu blanced, fel yr eglura'r awdur, Elaine Halls:

'Roeddwn yn gwehyddu blanced ac yn meddwl am yr ystof a'r anwe. Yr ystof yw'r edefyn disymud sy'n rhedeg ar draws hyd y flanced. Yr anwe yw'r edafedd symudol sy'n cael ei wehyddu i mewn ac allan; mae'n symudol, yn gyfnewidiol a gall fod yn wahanol ar bob rhes. Gallwch ddangos hyn trwy wadd pawb i wneud ychydig o wehyddu â llaw:



1. Rhowch i bawb saith darn o edau (30cm), pob un o liw gwahanol.



2. Clymwch yr edeifion ynghyd i wneud un edefyn.

3. Daliwch y llaw nad yw'r un cryfaf i fyny gyda'r gledr yn eich wynebu a'r bysedd ar led – hwn yw'r ystof.



4. Gyda'r llaw arall, gwehyddwch yr edefyn ar ei hyd – hwn yw'r anwe – i mewn ac allan rhwng eich bysedd, a gwylwch sut mae'n newid pan fydd lliw newydd yn dechrau.

5. Nawr dychmygwch Duw fel yr ystof (cyson a diogel) a ninnau fel yr anwe (symudol a chyfnewidiol). Mae pob person a gweithred ar draws y byd yn gwneud gwahaniaeth i sut mae'r byd yn edrych a sut y bydd bob amser yn edrych.

Mae'r litani ar gael mewn dau fersiwn: un ar gyfer oedolion a phob oed, ac un sy'n addas i blant a phobl ifanc. Ond gallwch addasu'r naill a'r llall, gan ychwanegu neu ddileu rhannau i fod yn addas i'ch cyd-destun.

Litani ar gyfer oedolion a phob oed gyda'i gilydd

Dad, Mab ac Ysbryd Glân, **Y Drindod sy'n ein clymu:**
Gwehydda ni mewn i frethyn hanes, yn ystog ac anwe.

Dad, Mab ac Ysbryd Glân, **Y Drindod sy'n ein clymu:**
Ers dechrau amser, rhodd y creu, buost ti.

Dad, Mab ac Ysbryd Glân, **Y Drindod sy'n ein clymu:**
Bob amser, am byth, bob man, yn dragwyddol.

Dad, Mab ac Ysbryd Glân, **Y Drindod sy'n ein clymu:**
Ti yw ystog ein bod, ein bywydau, ein bodolaeth.

Dad, Mab ac Ysbryd Glân, **Y Drindod sy'n ein clymu:**
Ni yw'r anwe rwyf wedi ei wehyddu i mewn hanes amser, i ddefnydd bodolaeth, i'r weledigaeth o'r dyfodol.

Dad, Mab ac Ysbryd Glân, **Y Drindod sy'n ein clymu:**
Gyda thi, heddiw, fe gofiwn, atgofiw, ailadroddwn a myfyriwn ar arswyd ac erchyllterau ac arteithiau rhyfel.

Dad, Mab ac Ysbryd Glân, **Y Drindod sy'n ein clymu:**
Gyda thi, cofiwn y dydd 100 mlynedd yn ôl, 36,525 diwrnod yn ôl, pan gafodd edeifion eu gwehyddu i gynnig heddwch, pan gurwyd cleddyfau yn sychau aradr.

Dad, Mab ac Ysbryd Glân, **Y Drindod sy'n ein clymu:**
Rydym yn ffieiddio bod cymaint o farwolaeth, dinistr, niwed, difrod, tloidi a thywyllwch wedi amgylchynu cymaint o fywydau. Bywydau wedi eu gwehyddu fel edeifion i'rh ystog.

Dad, Mab ac Ysbryd Glân, **Y Drindod sy'n ein clymu:**
Can mlynedd, pob un yn ychwanegu ei anwe ei hun: ei liwiau a'i synau ei hun; ei flasau a'i arogleuon ei hun: ei ryfel a'i heddwch ei hun; ei obeithion a'i hofnau ei hun; ei farwolaeth a'i fywyd ei hun; ei gariad a'i dristwch ei hun.

Dad, Mab ac Ysbryd Glân, **Y Drindod sy'n ein clymu:**
Bydd y cenedlaethau sydd i ddod yn edrych yn ôl hefyd, ar fywydau'r rhai a wehyddwyd i frethyn hanes a brethyn heddiw. Wrth i'r haul godi ar y dydd hwn o gofio, bydd yn ychwanegu at anwe a phatrwm bywyd.

Dad, Mab ac Ysbryd Glân, **Y Drindod sy'n ein clymu:**
Wrth i'r haul godi ar y dydd hwn o gofio, wrth i dywyllwch ddileu'r goleuni, fel pe bae'n amgylchu'r byw, bydd hefyd yn ychwanegu at anwe a phatrwm ein byw.

Dad, Mab ac Ysbryd Glân, **Y Drindod sy'n ein clymu:**
Gwelwn wynebaw, gwyddom enwau, cydnabyddwn aberthau, clywn lefau a theimlwn ddagrau'r bywydau a gollwyd gan mlynedd yn ôl a mwy, a gwaetha'r modd llai.

Oherwydd mae heddwch mor aml yn curo ei adenydd bregus ac yn cael ei guro gan fileindra rhyfel, gan rithdybiau mawredd, gan arweinwyr hunan ganolog a ffigyrau trasig anobaith.

Dad, Mab ac Ysbryd Glân, **Y Drindod sy'n ein clymu:**

Na foed i'r bywydau a'r creithiau hyn sy'n tarfu arnom heddiw fod yn ofer, boed i'w lle mewn hanes roi i ni, a'r rhai sydd i ddod, fywyd gwell o gariad, heddwch, gobaith a llawenydd.

Dad, Mab ac Ysbryd Glân, **Y Drindod sy'n ein clymu:**

**Yr eiddot ti ydym, a'n heiddo ni wyt ti,
y dydd hwn a phob dydd, nawr a hyd byth.
Amen.**

Litani ar gyfer plant a phobl ifanc

Dad, Mab ac Ysbryd Glân, **Y Drindod sy'n ein clymu:**

Gwehydda ni i mewn i frethyn hanes, yn ystog ac anwe.

Dad, Mab ac Ysbryd Glân, **Y Drindod sy'n ein clymu:**

Ni yw'r anwe rwyf wedi ei wehyddu i mewn i'r blynyddoedd a fu.

Dad, Mab ac Ysbryd Glân, **Y Drindod sy'n ein clymu:**

Gyda thi, heddiw, fe gofiwn yr hanesion a lluniau o ryfel a glywsom ac a welsom.

Dad, Mab ac Ysbryd Glân, **Y Drindod sy'n ein clymu:**

Gyda thi, cofiwn mai 100 mlynedd yn ôl i heddiw/yr wythnos hon, cafodd heddwch a diwedd y rhyfel byd cyntaf ei wehyddu i mewn i hanes.

Dad, Mab ac Ysbryd Glân, **Y Drindod sy'n ein clymu:**

Rydym yn drist bod cymaint o bobl wedi eu clwyfo a'u lladd mewn cymaint o ryfeloedd. Mae pob un wedi gadael eu marc ar hanes.

Dad, Mab ac Ysbryd Glân, **Y Drindod sy'n ein clymu:**

Rydym yn drist bod rhyfeloedd yn digwydd o hyd. Helpa ni i fyw ein bywydau dros heddwch.

Dad, Mab ac Ysbryd Glân, **Y Drindod sy'n ein clymu:**

**Yr eiddot ti ydym, a'n heiddo ni wyt ti,
y dydd hwn a phob dydd, nawr a hyd byth. Amen.**

Y cread a gwrthdaro



Crëwch ludwaith gan ddefnyddio papur newydd (i gysylltu gyda heddiw), paent, papur lliw a cherdyn i gynrychioli harddwch y cread, arswyd rhyfel a marwolaeth, a'r bywyd newydd a dyfodd ohono. Ymlaen llaw, peintiwch olchad o liw yn fras dros ddalennau papur newydd fel y gallwch weld y print oddi tano o hyd. Defnyddiwch amrywaeth o liwiau.




Glas

Defnyddiwch ddalennau lliw glas fel cefndir i'r gludwaith. Gallwch ddefnyddio dalennau cyfan ar gyfer grŵp, neu eu torri i faint A4 ar gyfer unigolion




Brown tywyll

Bydd hwn yn cynrychioli pridd/daear. Pan fydd y papur yn sych, rhwygwch ef yn ddarnau mân.




Coch tywyll

Bydd hwn yn cynrychioli gwaed/bywydau a gollwyd. Pan fydd y papur yn sych, rhwygwch ef yn ddarnau mân – yn llai'r brown uchod!



Gwyrddlas

Bydd hwn yn cynrychioli dafnau glaw. Pan fydd y papur yn sych, rhwygwch ef yn ddarnau mân iawn.



Aur

Bydd hwn yn cynrychioli pelydrau'r haul, yn pefrio ar y dafnau glaw. Pan fydd y papur yn sych, rhwygwch ef yn ddarnau mân iawn.

Bydd angen arnoch: dalennau o bapur newydd wedi eu paratoi fel uchod, dalennau o gerdyn neu bapur gwyrdd a choch llachar – neu gallwch ddefnyddio flwch o babïau coffâd – sisyrnau, a ffyn glud.

Rhowch y dalennau cefndir glas i'r grwpiau neu unigolion, fel bo'n addas.

Gwahoddwch bobl i greu golygfa cludwaith – ceir cyfarwyddiadau isod:

1. Glynwch y darnau brown ar waelod y dalennau cefndir glas, fel pridd gan greu nenlinell anwastad.
2. Ychwanegwch ddarnau o'r lliwiau sy'n weddill, y cyfan wedi eu cydgymsgu i gynrychioli arswyd rhyfel (gwaed a marwolaeth), y glaw a ddisgynnodd ac sy'n parhau i ddisgyn ar y ddaear, a chynheswydd yr haul a'r tyfiant ddaw ohono.
3. Torrwch flodau, coesau a dail pabi, gan ddefnyddio'r cerdyn/papur coch a gwyrdd – neu tynnwch babïau coffâd a defnyddiwch y darnau – ac ychwanegwch babïau at yr olygfa fel symbolau o fywyd newydd.

Wrth i chi greu'r gludweithiau, gallwch siarad am y milwyr a gafodd eu clwyfo neu eu lladd yn y pridd oer a gwlyb, y glaw a daeth a golchi hyn oll i'r pridd, a sut y daeth bywyd o farwolaeth wrth i'r pabïau coch dyfu ar faes y gad – ac yn parhau i dyfu hyd heddiw. O farwolaeth y daw atgyfodiad.

Gallwch gysylltu'r gweithgaredd hwn gyda'r esboniad am y gwehyddu yn y *Litani coffâd* trwy ddefnyddio edeifion o'r un lliwiau ag sydd yn y gludwaith.

Cadw oed

Os nad yw eich gweithred o gofio am 11yb ar 11 Tachwedd, curwch ddwylo neu eich traed yn araf yn hytrach na chynnal dau funud o dawelwch i gofio'r 100 mlynedd. Gall rhywun gadw curiad cyson a chadw cyfrif. Gallant yn raddol godi'r sain a'r cyflymder wrth gyrraedd 100. Neu gallwch ddefnyddio'r gweithgaredd hwn i arwain at ddau funud o dawelwch.

Mae'r Parch Elaine Halls yn weinidog Methodistaidd ar ynys Jersey.

Mae croeso i chi rannu'r deunydd hwn gyda phobl nad ydynt yn danysgrifwyr ROOTS. Defnyddiwch y ddolen yma: www.rootsontheweb.com/remembrance100